Rhaglen Gyflawn

# CABINET

# CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | Dydd Mawrth, 4ydd Mehefin, 2019 |
| **AMSER** | 1.00 y.h. |
| **LLEOLIAD** | Siambr Hywel Dda, Swyddfa'r Cyngor, Caernarfon LL55 1SH |
| **PWYNT CYSWLLT** | Annes Siôn<br>01286 679490<br>cabinet@gwynedd.llyw.cymru |

## AELODAU CABINET CYNGOR GWYNEDD

| **Aelodau** | |
|---|---|
| Dyfrig L. Siencyn | Arweinydd |
| Dafydd Meurig | Dirprwy Arweinydd, Aelod Cabinet Oedolion, Iechyd a Llesiant |
| Craig ab Iago | Aelod Cabinet Tai |
| Gareth Wyn Griffith | Aelod Cabinet Amgylchedd |
| Nia Wyn Jeffreys | Aelod Cabinet dros Gefnogaeth Gorfforaethol |
| Dilwyn Morgan | Aelod Cabinet Plant a Phobl Ifanc |
| Gareth Thomas | Aelod Cabinet Datblygu'r Economi a Chymuned |
| Ioan Thomas | Aelod Cabinet Cyllid |
| Catrin Wager | Aelod Cabinet Priffyrdd a Bwrdeistrefol |
| Cemlyn Rees Williams | Aelod Cabinet Addysg |

# RHAGLEN

| | Eitem | Cyflwynir gan | Swyddog | Tud. |
|---|---|---|---|---|
| 1 | YMDDIHEURIADAU | | | |
| 2 | DATGAN BUDDIANT PERSONOL | | | |
| 3 | MATERION BRYS | | | |
| 4 | MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU | | | |
| 5 | COFNODION Y CYFARFOD GYNHALIWYD AR 7 MAI 2019 | | | 3 - 8 |
| 6 | YSGOL LLANAELHAEARN | Cyng. Cemlyn Rees Williams | Gwern ap Rhisiart | 9 - 12 |
| 7 | HYBU ANNIBYNIAETH DRWY GYNYDDU CAPASITI, DATBLYGU GWASANAETHAU A NEWID DIWYLLIANT O FEWN DARPARIAETH THERAPI GALWEDIGAETHOL | Cyng. Dafydd Meurig | Aled Davies | 13 - 17 |
| 8 | CAIS AM ADNODDAU UN TRO O'R GRONFA TRAWSFFURFIO I ARIANNU Y CYNLLUN GWASANAETHAU CEFNOGI DEMENTIA YN Y GYMUNED AM GYFNOD O FLWYDDYN | Cyng, Dafydd Meurig | Aled Davies | 18 - 20 |

# Y CABINET DYDD MAWRTH, 7 MAI 2019

**Yn bresennol-**
Y Cynghorwyr: Dyfrig L. Siencyn, Dafydd Meurig, Craig ab Iago, Gareth Wyn Griffith, Nia Wyn Jeffreys, Dilwyn Morgan, Gareth Thomas, Ioan Thomas, Catrin Wager a Cemlyn Rees Williams

**Hefyd yn bresennol-**
Dilwyn Williams (Prif Weithredwr), Iwan Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Annes Sion (Swyddog Cefnogi Aelodau)

Eitem 6: Steffan Jones (Pennaeth Priffyrdd a Bwrdeistrefol) ac Amanda Murray (Rheolwr Prosiect)
Eitem 7: Huw Ynyr (Pennaeth Cynorthwyol Technoleg Gwybodaeth)
Eitem 8: Sion Huws (Uwch Gyfreithiwr)

## 1. YMDDIHEURIADAU

Croesawyd Aelodau'r Cabinet a Swyddogion i'r cyfarfod.
Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Morwena Edwards.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Cyng. Catrin Wager ar gyfer eitem 8 gan fod y Crwner yn aelod o'i theulu.

## 3. MATERION BRYS

Nid oedd unrhyw faterion brys

## 4. MATERION YN CODI O DROSOLWG A CHRAFFU

Nid oedd unrhyw faterion yn codi o drosolwg a chraffu.

## 5. COFNODION CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 12 MAWRTH

Tynnwyd sylw at y rhestr o'r Cynghorwyd presennol yn y cyfarfod diwethaf gan nodi fod camgymeriadau i'w gweld yno, nodwyd fod angen diweddaru'r rhestr. Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfodydd y Cabinet a gynhaliwyd ar y 2 Ebrill 2019, fel rhai cywir,

## 6. STRATEGAETH TOILEDAU

Cyflwynwyd yr eitem gan Cyng. Catrin Wager

**PENDERFYNWYD**

Derbyn a mabwysiadu'r Strategaeth Toiledau Cyhoeddus.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi ei diolch am ddod yn rhan o dîm y Cabinet. Mynegwyd fod rhan 8 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Cymru) 2017 yn rhoi gofyn statudol i'r Cyngor lunio a chyhoeddi strategaeth toiledau lleol. Fel rhan o'r broses i ddatblygu'r strategaeth, pwysleisiwyd fod ymarferiadau ymgynghori wedi digwydd. Pwysleisiwyd fod 1,200 o ymatebion wedi ei derbyn yn rhan o'r ymgynghoriad cyhoeddus a bod y prif negeseuon o'r ymgynghoriad wedi creu amcanion clir i'r strategaeth.

Nodwyd fod ymgynghoriad wedi ei gynnal ar yr amcanion a nodwyd y canlyniadau'r ymgynghoriad. Pwysleisiwyd fod y cyhoedd wedi nodi eu bod yn fodlon i gyfrannu at gost o gadw toiledau cyhoeddus. Ychwanegwyd fod gwaith yn cael ei wneud sicrhau fod datblygiadau yn cael ei wneud fel bod y Cyngor yn cyrraedd safonau'r amcanion. Tynnwyd sylw at y ffaith fod yr adran wedi dechrau gwneud gwaith o uwchraddio rhai o'r toiledau.

Nodwyd y llynedd fod risg mawr i gau nifer uchel o doiledau cyhoeddus, ond oherwydd gwaith yr adran i weithio gyda chymunedau, mynegwyd bellach fod 63 o doiledau cyhoeddus ar gael i'r cyhoedd. Mynegwyd fod hyn yn golygu fod Gwynedd yr ail sir yng Nghymru o ran nifer uchaf o doiledau cyhoeddus ac y trydydd drwy Brydain. Diolchwyd i staff yr adran ac i'r cynghorau Cymuned am gadw cymaint o doiledau ar agor.

Sylwadau yn codi o'r drafodaeth

- Tynnwyd sylw at waith caled yr adran yn creu'r adroddiad. Mynegwyd fod niferoedd o doiledau wedi gostwng cymaint ar draws y wlad ond fod gwaith calonogol wedi ei wneud i sicrhau toiledau yn y sir.
- Nodwyd cefnogaeth i'r strategaeth ond tynnwyd sylw at Gynllun Grantiau Toiledau Cymunedol. Mynegwyd nad yw'r defnydd o'r grant ddim yn ddigonol a bod adborth wedi nodi nad yw'r cyhoedd yn gyffredinol yn ymwybodol o'r cynllun. Mynegwyd nad oedd y wefan ar gyfer y cynllun ddim yn hawdd i'w ddefnyddio ond ychwanegwyd fod yr adran yn edrych ar ffyrdd eraill i rannu'r wybodaeth.
- Mynegwyd fod aelod o'r cyhoedd wedi cysylltu ag un o'r Aelodau Cabinet yn nodi nad oes biniau misglwyf ar gael mewn toiledau cyhoeddus ar draws y sir. Nodwyd fod diffyg yn y ddarpariaeth ar draws y sir a bydd gwaith yn cael ei wneud yn y misoedd nesaf.
- Diolchwyd i Gynghorau Cymuned a Thref am fod mor barod i addasu ac i gynnal gwasanaethau.

## 7. CYNLLUN Y CYNOGR – CAIS AM ADNODDAU DATBYLGU TECHNOLEG I GEFNOGI FFORDD GWYNEDD

Cyflwynwyd gan Cyng. Ioan Thomas

**PENDERFYNIAD**

Cymeradwyo dyraniad o £341,046 (tua £113,000 y flwyddyn am dair blynedd) o'r Gronfa Trawsffurfio i gwrdd â chynnydd sylweddol mewn galw i ddatblygu systemau cyfrifiadurol i wella gwasanaethau ar draws Cyngor Gwynedd yn sgil darganfyddiadau ymarferion Ffordd Gwynedd.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod angen cefnogi y cais am arian i gwrdd â chynnydd sylweddol mewn galw i ddatblygu systemau cyfrifiadurol i wella gwasanaethau ar draws y Cyngor yn sgil darganfyddiadau ymarferion Ffordd Gwynedd. Ychwanegwyd fod yr Uned Datblygu Technoleg Gwybodaeth yn datblygu systemau cyfrifiadurol ar gyfer holl wasanaethau'r Cyngor a bod y galw am gynnych yr uned yma'n hanesyddol uchel. Ategwyd yn dilyn llwyddiant ymarferion ffordd Gwynedd ar draws y Cyngor fod galw'n llawer uwch na'r gallu i gyflenwi.

Yn aml, nodwyd oherwydd natur Ffordd Gwynedd o roi pobl Gwynedd yn ganolog mae'r datrysiadau ar gyfer gwasanaethau'n unigryw ac angen teilwra'n bwrpasol yn unol â darganfyddiadau'r ymarferion Ffordd Gwynedd. Ategwyd fod yr adran o ganlyniad i hyn wedi bod yn arloesol ac yn aml yn creu systemau cyfrifiadurol i gyd fynd a'r angen am wasanaeth wedi ei deilwra'n bwrpasol.

Mynegwyd na fydda'i chais am arian yn diwallu yn llwyr ond y bydda'i sicrhau fod y gwaith yn ysgafnhau. Ychwanegwyd y byddai swydd prentis gradd yn cael ei greu yn ystod yr haf. Nodwyd y byddai'r arian yn hwb i wella'r ddarpariaeth technoleg Gwybodaeth sydd a'r gael i'r gwasanaethau.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth
- Tynnwyd sylw at y Cyngor yn creu systemau cyfrifiadurol newydd holwyd oes modd gwerthu'r gwasanaethau i gwmnïau a chynghorau eraill.
- Mynegwyd fod angen i'r adran fod yn fentrus a'i bod yn uchelgais i'r adran fod ar flaen y gad o ran Technoleg Gwybodaeth.

## 8. TREFNIADAU TAL CRWNER

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Cyng. Nia Jeffreys

**PENDERFYNIAD**

Awdurdodi Pennaeth y Gwasanaeth Cyfreithiol, mewn ymgynghoriad a'r Pennaeth Cyllid, i gytuno ar drefniadau i dalu cyflog i'r Uwch Grwner, a ffi i'r Crwner Cynorthwyol yn unol a'r adroddiad.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod yr adroddiad yn un technegol. Nodwyd fod Deddf y Crwneriaid a Chyfiawnder 2009 yn darparu fod gan uwch grwneriaid hawl i gyflog, tra telir ffi i grwneriaid cynorthwyol. Mynegwyd gan fod Deddf 2009 wedi dod a newidiadau mawr i strwythur y gwasanaeth, ychwanegwyd yr angen am sail newydd ar gyfer talu'r uwch grwneriaid ynghyd a'r crwneriaid cynorthwyol. Cynhaliwyd trafodaethau Cenedlaethol, a chyhoeddwyd canllaw tal newydd yng Nghylchlythyrau 61 a 62.

Mynegwyd fod mwyafrif o grwneriaid yn llawn amser ond nodwyd fod Gwynedd a Môn yn boced ble mae Crwner rhan amser. Nodwyd fod y Cylchlythyr yn nodi mai tan sylfaenol Uwch Grwneriaid Rhan-amser yw £20,000 sydd yn cynnwys gwaith ' y tu allan i oriau' statudol, ac yna taliadau ar gyfer pob diwrnod a weithir. Yn dilyn trafodaethau a'r Uwch Grwner daethpwyd i gytundeb a fyddai'n golygu y byddai'r sail y'i teilir arno yn wahanol i'r dull a nodwyd yn y Cylchlythyr. Nodwyd fod y dull yn asesu nifer tebygol y dyddiau y disgwylir i'r Uwch Grwner weithio bob blwyddyn a throsi i ffigwr blynyddol gan gynnwys yr elfen gyflog sylfaenol yn ogystal. Ychwanegwyd y bydd gofyn am adolygiad cyfnodol.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Nodwyd nad oedd gan y Cyngor lawer o reolaeth dros y mater gan ei fod yn fater i'r goron. Ychwanegwyd gan ei fod ar y cyd rhwng Gwynedd a Môn fod cyfraniad Cyngor Gwynedd ychydig yn uwch o ganlyniad i'r boblogaeth.

## 9. ADRODDIAD RHEOLAETHOL

Cyflwynwyd gan Dilwyn Williams

**PENDERFYNIAD**

a) Yn amodol ar (b), cytuno gydag asesiad y Prif Weithredwr fod y strwythur rheolaethol a ddangoswyd yn Atodiadau 1 i 10 yn addas i bwrpas.
b) Cytuno i leihau'r nifer uwch o swyddi o fewn y Cyngor o 40 i 37 fel y nodir yng nghymalau 61, 62 a 64 yr adroddiad gan arbed isafswm o £211,000 yn flynyddol.
c) Gan nodi'r gofynion ym mharagraff 95 o'r adroddiad, cytuno i greu Adran Tai ac Eiddo newydd er mwyn ein galluogi i roi mwy o ffocws ar gyflawni ein Strategaeth Tai a gofyn i'r Prif Weithredwr ail edrych ar sefyllfa Ymgynghoriaeth Gwynedd er mwyn gweld a oes modd arall o wireddu'r amcanion a nodir yn yr adroddiad o ran strwythur rheolaethol ac arbedion effeithlonrwydd pellach.
ch) Nodi'r man newidiadau pellach y bwriedi'r eu gweithredu fel y'u hamlinellir yng nghymalau 76-88 yr adroddiad sy'n cynnwys symud

rheolaeth adeiladu i'r adran Amgylchedd er mwyn iddo fod yn agosach at Cynllunio.

d) Dirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol addasu Cynllun Dirprwyo'r Cyngor i adlewyrchu'r newidiadau wrth iddynt ddod yn weithredol.

**TRAFODAETH**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan nodi fod y mater wedi codi yn dilyn trafodaeth a gynhaliwyd y llynedd wrth ystyried toriadau i wasanaethau. Mynegwyd fod y drafodaeth wedi codi'r cwestiwn os yw'r drefn reolaethol yn un cywir. Ategwyd fod cyhoedd yn aml yn holi faint o reolwyr ac uwch-reolwyr sydd gan y Cyngor ac os yw'r niferoedd yn gywir. Mynegwyd fod y Cabinet wedi comisiynu'r Prif Weithredwr i adolygu'r drefn reolaethol.

Tynnwyd sylw at y drefn a ddilynwyd o adolygu'r strwythur bresennol gyda Phenaethiaid, lle cafodd yr Aelodau Cabinet a'r Cadeiryddion ac Is Gadeiryddion Craffu y cyfle i glywed y gwaith herio. Ychwanegwyd fod Rhaglen Ffordd Gwynedd wedi amlygu'r angen am fod yn gliriach ynglŷn â rolau swyddi penodol o fewn y sefydliad, gan amlygu rôl gyda phwyslais gwahanol ac aeddfetach ar gyfer rheolwyr. Ychwanegwyd fod y Prif Weithredwr wedi iddo weld y darlun cychwynnol o strwythurau adrannol wedi dod i'r casgliad fod nifer o swyddi oedd yn dwyn teitl “rheolwr” wedi esblygu dros amser, ac nad oedd oeddent yn arddel swydd rheolwr fel yr oedd yn cael ei ddisgrifio yn y swydd ddisgrifiad diiwygiedig ar gyfer rheolwyr. Ymhelaethwyd drwy nodi fod gwaith herio wedi ei wneud a bellach mae'r nifer o swyddi wedi newid eu teitlau i wneud yn glir nad rheolwyr yn unol â'r diffiniad yw'r swyddi yma. O ganlyniad i hyn, ychwanegwyd, fod y nifer o reolwyr bellach wedi disgyn o 235 i 111.

Edrychwyd yn bellach ar stwythur rheolaethol Uwch Swyddogion gan holi os oes gormod o Uwch Reolwyr. Mynegwyd o edrych dros Gymru mai dim ond 5 Cyngor arall sydd a llai o swyddi Penaethiaid a Chyfarwyddwyr na 12. Ychwanegwyd fod gan y Cyngor 43 o swyddi ar lefel Uwch Reolwr neu uwch yn 1996 ac fod y nifer wedi gostwn erbyn 2004 i 40. Holwyd y cwestiwn os yw'r nifer yn parahu i fod yn rhy uchel, nodwyd mai mater o farn a fyddai hyn.

Tynnwyd sylw at rai awgymiadau a oedd o ganlyniad i'r adolygiad. Awgrymwyd y byddai yn bosib gwneud gyda gostynigiad o 4 Uwch Swyddogion yn bendol yn yr yr Adran Amgylchedd, Priffyrdd a Bwrdeistrefol, Ymgynghorieth Gwynedd ac Cefnogaeth Gorfforaethol. Codwyd pryder am y Gwasanaeth Darparu yn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant gan nodi fod bwriad i ddatrys y sefyllfa.

Tynnwyd y sylw at adolygiad Ffordd Gwynedd sydd yn cael ei gynnal ar hyn o bryd yn y Maes Cynllunio a Rheolaeth Adeiladu. Mynegwyd er nad oes canlynaidu i'r adolygiad eto mae ymdeimlad yn ymddangos y byddai maneision i dirigolion Gwynedd os y buasai'r ddau wasanaeth yn nes at ei gilydd. Awgrymwyd yn ogystal, er fod Ymgynghriaeth Gwynedd yn uned ar wahan o ganlyniad i'w gogwydd masnachol, y byddai modd trosglwyddo'r adran ar holl swyddogethau i adain o fewn yr Adran Amgylchedd o dan Bennaeth Cynorthwyol.

Gyda blaenoriaeth y mae'r Cabinet yn dymuno ei roi i'r Sategaeth Tai, nododd y Prif Weithredwr nad oedd yn credu fod modd rhoi digon o ffocws os yw wedi ei leoli o fewn yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant, sydd yn barod yn ceisio rhoi sylw i faterion mawr sydd yn wynebu'r maes Gofal. Ar sail hyn, argymhellwyd y dylid sefydlu Adran Tai ac Eiddo. Ychwanegwyd fod man faterion eraill mewn adrannau amrywiol lle byddent efallai yn gorwedd yn well mewn adrannau gwahanol a byddai trafodaeth bellach ar y rhain gyda'r Penaethiaid Adran berthnasol yn cael eu cynnal cyn gweithredu.

Sylwadau'n codi o'r drafodaeth

- Mynegwyd eu bod yn cytuno a rhan helaeth o'r adroddiad ond mynegodd rhai aelodau efallai nad oedd yn syniad droeth i symud yr uned fasnachol Ymgynghoriaeth Gwynedd o dan yr Adran Amgylchedd, gan y byddai efallai yn ormod o newid mewn cyfnod byr iawn o amser. Ychwanegwyd o ganlyniad i'r gogwydd masnachol yn yr adran Ymgynghoriaeth, sydd â throsiant o tua £4miliwn y flwyddyn, fod y meddylfryd yn yr Adran angen bod yn wahanol i weddill y Cyngor.
- Holwyd os na fydda'i Ymgynghoriaeth yn mynd yn adain o dan yr Adran Amgylchedd beth fydda'i canlyniadau peidio a gwneud hyn. Mynegwyd mai y prif newid yw y buasai 10 adran yn hyrtrach na 9 a buasai nifer yr Uwch Swyddogion, os yn dilyn gweddill argymhellion yr adroddiad, yn lleihau i 37 yn hytrach na 36. Ychwanegwyd y byddai cadw'r ddwy adran ar wahan yn lleihau'r risg i'r Cyngor ond y byddai maint yr arbediad yn lleiahau o £297,000 i oddeudtu £221,000.
- Mynegwyd fod yr Adran Ymgynghoriaeth yn sicrhau fod swyddi o safon uchel ar gael yn y Cyngor sydd yn ogystal yn creu elw i'r Cyngor. Nodwyd pryderon o golli'r arbenigedd ac yr elw os yn cael rhoi fel adain o dan adran arall. Ategwyd fod yr adran yn arwain ar faes pwysig ar yn o bryd sef Newid Hisawdd a nodwyd risg o ddisodli tim da.
- Mynegwyd fod newid y strwythur o fewn adrannau i dair swyddogaeth - Pennaeth, Rheolwr ac Aelod Staff yn ei gwneud yn llawer yn fwy clir.
- Mynegwyd balchder o greu adran Tai ac Eiddo a fydd yn pwyslesio uchelgais y cyngor i roi cartrefi i bawb.
- Cytunwyd a'r syniad o symud rheolaeth adeiladu i'r adran Amgylchedd o'r Adran Ymgynghoriaeth.
- Cytunwyd ar welliant i'r argymhellion er mwyn cadw'r Adran Ymgynghoriaeth yn adran ar ben ei hun ond gofyn i'r Prif Weithredwr ail edrych ar sefyllfa er mwyn gweld a oes modd arall o wireddu'r amcanion a nodir yn yr adroddiad o ran strwythur rheolaethol ac arbedion effeithlonrwydd pellach.

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 y.h. a daeth i ben am 2.15

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Cabinet Cyngor Gwynedd** |
| **DYDDIAD** | **4 Mehefin 2019** |
| **AELOD CABINET** | **Cynghorydd Cemlyn Rees Williams** |
| **SWYDDOG** | **Gwern ap Rhisiart** |
| **TEITL YR EITEM** | **Ysgol Llanaelhaearn** |

**1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR**

Ymhellach i drafodaethau cychwynnol rhwng corff llywodraethol Ysgol Llanaelhaearn a swyddogion yr Adran Addysg ynglŷn â phryderon ynghylch niferoedd yr ysgol, gofynnir am ganiatâd i gynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i drafod ystod o opsiynau posibl ar gyfer dyfodol yr ysgol.

**2. CEFNDIR**

2.1 Mae Ysgol Llanaelhaearn wedi ei lleoli yng nghanol pentref Llanaelhaearn sydd rhwng Pwllheli a Chaernarfon. Mae gan yr ysgol gapasiti Meithrin i Flwyddyn 6 o 53, gyda 11 o ddisgyblion rhwng 3-11 oed yn mynychu'r ysgol (Medi 2018). Mae'r disgyblion i gyd yn byw yn nalgylch Ysgol Llanaelhaearn.

2.2 Cafodd Ysgol Llanaelhaearn ei harolygu ddiwethaf yn 2015, ble daethpwyd i'r casgliad mai digonol oedd perfformiad yr ysgol. Fodd bynnag, mae gwelliannau wedi eu cyflwyno yn sgil trefniadau rheoli diweddar. Yn 2017/18, gosodwyd yr ysgol yn y categori melyngoch/melyn o ran cefnogaeth a gallu'r ysgol i wella.

2.3 O ganlyniad i'r niferoedd isel bresennol, mae'r ysgol mewn sefyllfa fregus ac o dan bwysau cyllidebol cynyddol. Mae swyddogion o'r Adran Addysg eisoes wedi cynnal cyfarfodydd cychwynnol gyda chorff llywodraethol yr Ysgol er mwyn egluro'r rhesymau am yr angen i drafod dyfodol Ysgol Llanaelhaearn a'r drefn o gynnal trafodaethau lleol.

**3. RHESYMAU DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD**

Ceisir caniatâd i gychwyn trafodaethau ffurfiol ar opsiynau posibl ar gyfer dyfodol Ysgol Llanaelhaearn gyda'r corff llywodraethol a budd-ddeiliaid perthnasol eraill gan fod yr ysgol yn wynebu nifer o heriau, yn benodol:


3.1 Mae cwymp sylweddol yn y nifer o ddisgyblion ar y gofrestr, gyda 11 o ddisgyblion yn mynychu'r ysgol yn 2018/19. Mae'r disgyblion yn cael eu haddysgu mewn dau ddosbarth.

3.2 Dengys amcangyfrifon y bydd niferoedd yn lleihau ymhellach gyda 8 disgybl ar y gofrestr yn 2021.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y 'PENDERFYNIAD A GEISIR'

### 4.1 Niferoedd Isel

4.1.1 Mae niferoedd disgyblion Ysgol Llanaelhaearn wedi lleihau dros y blynyddoedd diwethaf. Gweler yn y graff isod fod cwymp sylweddol wedi bod mewn niferoedd ers 2013. Er bod gan yr ysgol gapasiti o 53 (Meithrin i Flwyddyn 6), yr uchaf mae'r ysgol wedi llwyddo i'w gael ers 1980 yw 42 o ddisgyblion yn 2012. Ers hyn mae'r niferoedd wedi lleihau gyda 11 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Medi 2018.




4.1.2 Gyda 11 o ddisgyblion ar y gofrestr ym mis Medi 2018, mae hyn yn gadael 42 o lefydd gweigion yn yr ysgol, sef 79% o'r capasiti.

4.1.3 Mae 39 o blant yn byw yn nalgylch Llanaelhaearn gyda 28 ohonynt yn mynychu ysgolion cyfagos.

### 4.2 Rhagamcanion 3 mlynedd

4.2.1 Mae'r rhagamcanion diweddaraf, yn seiliedig ar gyfrifiad Medi 2018, yn dangos y bydd niferoedd Ysgol Llanaelhaearn yn gostwng i 8 disgybl erbyn Medi 2021, gyda 2 ddisgybl yn unig yn y Cyfnod Sylfaen, fel y dengys yn y tabl isod:

**Tabl 2 – Amcangyfrifon niferoedd Ysgol Llanaelhaearn**

| | M | 0 | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Medi 2018 | 0 | 3 | 1 | 2 | 0 | 2 | 1 | 2 | **11** |
| Amcangyfrif Medi 2019 | 2 | 0 | 3 | 1 | 2 | 0 | 2 | 1 | **11** |
| Amcangyfrif Medi 2020 | 0 | 2 | 0 | 3 | 1 | 2 | 0 | 2 | **10** |
| Amcangyfrif Medi 2021 | 0 | 0 | 2 | 0 | 3 | 1 | 2 | 0 | **8** |

## 5. YSTYRIAETHAU PERTHNASOL

### 5.1 Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018

5.1.1 Bydd unrhyw broses yn cael ei gynnal yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru *(Cod Trefniadaeth Ysgolion 011/2018)*.

## 6. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

6.1 Yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cabinet, bydd trafodaethau ffurfiol yn cychwyn gyda llywodraethwyr Ysgol Llanaelhaearn a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i adnabod a thrafod opsiynau posib, gyda argymhelliad i'r Cabinet ar y ffordd ymlaen a'r drefn i'w dilyn.

6.2 Yn dilyn cynnal y trafodaethau hyn, bydd adroddiad yn cael ei baratoi ar gyfer y Cabinet i ofyn am ganiatâd i symud ymlaen i gynnal unrhyw broses statudol, yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), yn ôl yr angen.

6.3 Rhaglen waith

| **Dyddiad** | **Gwaith** |
|---|---|
| Mehefin/Gorffennaf 2019 | Yn ddarostyngedig ar benderfyniad y Cabinet, cynnal cyfarfodydd ffurfiol gyda Llywodraethwyr Ysgol Llanaelhaearn a budd-ddeiliaid perthnasol eraill i drafod opsiynau. |
| Hydref 2019 | Adrodd yn ôl i'r Cabinet yn dilyn adborth lleol, ac yn ôl yr angen, ceisio caniatâd gan y Cabinet i ddilyn proses statudol o ymgynghori ar yr opsiwn ffafredig yn unol â chanllawiau Cod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018). |

## 7. BARN Y SWYDDOGION STATUDOL

**Y Swyddog Monitro:**
Fe esbonnir yn yr adroddiad mai'r bwriad yw ceisio adnabod camau posib i gyfarch yr heriau sydd yn wynebu'r ysgol. Cydnabyddir hefyd fod ystod o faterion sydd angen eu cloriannu wrth geisio adnabod atebion posib a gweithrediad. Nodi'r hefyd fod darpariaethau Cod Trefniadaeth Ysgolion 11/2018 yn mynd i fod a rôl ganolog yn y cloriannu ac y bydd opsiynau ar y ffordd ymlaen yn destun ystyriaeth pellach gan y Cabinet pan gwblheir y gwaith yma. O safbwynt priodoldeb mae'r hyn a gynigir yn briodol.

**Y Pennaeth Cyllid:**
Rwy'n cefnogi'r penderfyniad a geisir yma.

**Yr Aelod Lleol:**

Ysgol fechan, **hapus** ydi Ysgol Llanaelhaearn, sydd wedi gweithio'n galed i godi safon addysg a chyrhaeddiad y plant dros y blynyddoedd diwethaf. Mae adroddiadau yr Ysgol yn datgan yn glir bod llwyddiant wedi ei gael o'r ymdrech, ac mae'n sicr fod y Rhieni presennol yn hapus iawn gyda datblygiad y plant.

'Rwyf yn siomedig a thrist fod sefyllfa'r ysgol, oherwydd niferoedd y disgyblion, mor fregus, ac 'rwyf yn ymwybodol fod y Llywodraethwyr yn gweithio i geisio cynyddu nifer y plant ar hyn o bryd.

‘Rwyf yn derbyn y bydd problem cyllid sylweddol gan yr Ysgol os na fydd nifer y plant yn cynyddu’n sylweddol erbyn Mis Medi eleni.

Erfyniaf arnoch i ystyried ansawdd yr addysg a hapusrwydd y plant a’r rhieni pan yn trafod yr opsiynau posib.

Edrychaf ymlaen i drafod opsiynau posib ar gyfer ceisio dyfodol i’r Ysgol.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **4 Mehefin 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Mari Wynne Jones** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679194** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Hybu annibyniaeth trwy gynyddu capasiti, datblygu gwasanaethau a newid diwylliant o fewn y ddarpariaeth Therapi Galwedigaethol.** |

## 1 Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Gwneir cais i'r Cabinet ddyrannu £116,000 o adnoddau un tro o'r Gronfa Trawsffurfio ar gyfer ariannu swydd Arweinydd Therapi Galwedigaethol fydd â chyfrifoldeb am arwain a datblygu y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol ar draws yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant (cyfnod o 2 flynedd).

## 2 Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae'r cynllun yn hybu annibyniaeth a gwasanaethau ataliol sydd yn un o brif egwyddorion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014 ac yn cefnogi blaenoriaeth 6 Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 – 'Sicrhau fod gennym wasanaethau Gofal sy'n helpu pobl i fyw eu bywydau fel maent yn ei ddymuno'.

Bydd y cynllun yn fodd i wireddu'r egwyddorion canlynol:

- Sicrhau llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth
- Bydd ein gwasanaethau yn canolbwyntio ar bobl, ac yn rhoi llais cryf iddynt yn y penderfyniadau a wneir am y cymorth a gânt
- Caiff gwasanaethau eu darparu drwy bartneriaethau a thrwy gydweithredu
- Bydd gwasanaethau'n ceisio atal anghenion unigolion rhag cynyddu, ac yn ymdrechu i sicrhau bod y cymorth iawn ar gael ar yr adeg cywir
- Adeiladu a gwreiddio egwyddorion gofal sengl gan arbrofi gyda ffyrdd arloesol o gwrdd ag amcanion.
- Cefnogi newid diwylliant ac ehangu rôl therapyddion i gynnwys gwaith therapiwtig a galluogi.

Mae swyddogaeth Therapi Galwedigaethol yn allweddol i newid diwylliant a datblygu gwasanaethau ataliol sydd yn cyfrannu i gyflawni arbedion

effeithlonrwydd trwy leihau yr angen am ofal cartref neu breswyl. Bydd y cynllun yn ein galluogi i ddarparu cyngor a chefnogaeth gywir ac amserol i unigolion ac yn cynyddu capasiti i gefnogi a chyfoethogi amcanion llesiant unigolion Gwynedd. Bydd hyn yn ein galluogi i sefydlu agwedd ataliol sydd yn canolbwyntio ar amcanion unigol.

Bydd y cynllun yn ein galluogi i adnabod yn amserol unigolion sydd yn dirywio ac mewn risg o gael mynediad i'r ysbyty a'u galluogi i ddychwelyd neu barhau i fyw yn annibynnol yn amserol.

Bydd yn galluogi datblygu cefnogaeth Therapi Galwedigaethol penodol sydd yn cynnig cyfleoedd cymdeithasol, gwella cyfleoedd galwedigaethol a delio ac ymddygiadau heriol.

## 3 CYFLWYNIAD

Mae'r Adran Oedolion Iechyd a Llesiant yn symud i ddull o weithio sydd yn rhoi mwy o bwyslais ar iechyd a llesiant a gwaith ataliol. Trwy'r dull yma o weithio byddwn yn gweld gwell deilliannau i unigolion; galluogi pobl i fyw yn annibynnol o fewn eu cymunedau mor hir â phosib a bydd llai o angen am ofal dwys.

Mae'r galw ar y gwasanaeth yn cynyddu wrth i boblogaeth heneiddio. Rydym yn trawsffurfio gwasanaethau cymunedol i alluogi mwy o ymatebion cynnar ac ataliol ar lefel lleol i'r dyfodol.

Er mwyn cyflawni yr hyn sydd yn bwysig i unigolion rhaid arbrofi gyda ffyrdd newydd i ddarparu gofal.

Mae gan Therapi Galwedigaethol rôl allweddol os ydym am gyflawni yr hyn sydd yn bwysig i unigolion ac atal dibyniaeth ar ofal hir dymor. Er enghraifft, dengys ein gwaith yn y maes tai bod diffyg capasiti ac arbenigedd therapy galwedigaethol yn un o'r prif rwystrau i addasu eiddo er sicrhau y gall unigolion ddod adref o ysbytai a chartrefi gofal yn amserol. Mae'r rôl yn cynnig datrysiadau gwahanol i'r ffyrdd traddodiadol o gwrdd â'r angen ac yn rôl allweddol wrth ystyried trefniadau gadael yr ysbyty yn effeithiol.

## 4 RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae'r angen i fuddsoddi mewn ymyraethau ataliol o fewn ein cymunedau yn sicrhau ein bod yn cwrdd â'n hymrwymiad i drawsnewid gwasanaethau gofal.

Rydym yn cydnabod bod angen cael cymysgedd o sgiliau cywir i gyflawni'r hyn sy'n bwysig i bobl Gwynedd. Mae angen adolygu a thrawsnewid y gwasanaeth Therapi Galwedigaethol o fewn Cyngor Gwynedd a'r Bwrdd Iechyd os am gyfarch ein pwrpas. O ganlyniad i restrau aros a chynnydd yn y galw, nid ydyw'r gefnogaeth therapi galwedigaethol bresennol yn addas i bwrpas.

Rhaid hefyd ystyried ei bod yn heriol iawn recriwtio therapyddion i weithio yn y

Cyngor.

Rhai o'r rhesymau dros y problemau recriwtio yw diffyg arweinyddiaeth broffesiynol yn y maes o fewn y Cyngor; gwahaniaethau mewn lefelau cyflog rhwng Y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd a symud lleoliad y cwrs perthnasol o Brifysgol Bangor i Brifysgol Glyndwr. Mae'r cynllun ehangach yn cynnwys bwriad i geisio ymateb i broblemau recriwtio therapyddion galwedigaethol trwy ddatblygu rhaglen i hyfforddeion therapyddion galwedigaethol.

Byddai cefnogi staff i fynychu cwrs rhan amser yn ein galluogi i fuddsoddi yn y gweithlu ymroddedig sydd eisoes gennym ond sydd heb gymhwyster proffesiynol a thrwy hynny sicrhau fod yr arbenigedd yn cael ei ddatblygu ac yn aros yn lleol. Yn y dyfodol, ac os y bydd adnoddau yn caniatáu, y nod fydd asesu'r posibilrwydd o ddatblygu therapyddion lleol trwy gydweithio gydag ysgolion a cholegau lleol.

Er mwyn sicrhau gwasanaeth addas, mae angen Arweinydd maes fydd yn gyfrifol am drawsnewid a chyrfau gwasanaeth Therapi Galwedigaethol o fewn yr Adran a gyda'r Bwrdd Iechyd. Prif gyfrifoldebau yr arweinydd dros y 2 flynedd nesaf fydd:

- Ail fodelu ac integreiddio rolau therapi rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd i sicrhau fod adnoddau presennol yn cael eu defnyddio yn y modd mwyaf effeithiol ac yn darparu gwasanaeth mwy person canolog i'r dinesydd.

- Adolygu lefel sgiliau proffesiynol o fewn y Timau Adnoddau Cymunedol i sicrhau fod y sgiliau cywir ar gael i ymateb i'r galw a'r gofynion. Mae cyfraniad ymarferol therapyddion yn allweddol iawn ar gyfer pobl fregus y gymuned.

- Adolygu prosesau ar y cyd rhwng yr Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd i leihau dyblygu a rhyddhau capasiti gweithwyr rheng flaen.

- Cydweithio a'r Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol rhanbarth y Gogledd i adolygu ac ail fodelu trefniadau darpariaeth offer i sicrhau mynediad rhwydd ac amserol i offer addas i hybu dinasyddion i fyw mor annibynnol ag sy'n bosib o fewn eu cymunedau lleol a lleihau galw ar wasanaethau gofal traddodiadol.

- Datblygu elfen therapiwtig rôl therapyddion. I roi arweiniad proffesiynol clir ar faterion Therapi Galwedigaethol a sicrhau cysondeb ar draws y gwasanaethau.

- Sicrhau trefniadau goruchwylio proffesiynol ar gyfer therapyddion i gwrdd â chyfrifoldebau proffesiynol a hybu datblygiad proffesiynol parhaus. Yn rhagweld y bydd cynnydd mewn therapyddion sydd yn gyflogedig gan Y Cyngor i'r dyfodol o fewn y timau adnodd cymunedol a meysydd arbenigol plant ac anableddau, Tai ac Anabledd Dysgu.

- Gwreiddio egwyddorion gofal sengl fel rhan o waith dyddiol therapyddion y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd. Ymchwilio i waith arloesol a datblygu defnydd o dechnoleg, technegau, ac offer creadigol fyddai'n gwella profiad yr unigolyn, rhyddhau capsiti gofal a sicrhau arbedion effeithlonrwydd.

- Adolygu trefniadau rhyddhau o'r ysbyty yn amserol – mewnbwn therapyddion yn allweddol i arbed mynediadau i'r ysbyty a hyrwyddo ymyrraeth amserol.

- Galluogi ac adfer sgiliau - rôl allweddol gan therapyddion mewn rhoi ymyrraeth amserol ddwys i gydweithio gyda dinasyddion a darparwyr gofal i sicrhau adfer ac adennill sgiliau, hybu annibyniaeth a lleihau dibynniaeth ar wasanaethau traddodiadol.

- Cefnogi staff presennol a hybu recriwtio gweithwyr newydd trwy sicrhau fframwaith goruchwylio a datblygu.

Heb y ddarpariaeth arbenigol a gwasanaeth Therapi Galwedigaethol sydd yn addas i'w bwrpas, bydd risg o orwasanaethu a gorddibyniaeth ar wasanaethau a datrysiadau traddodiadol drud. Byddai hynny yn ei dro yn cael effaith ar ein gallu i reoli'r galw a chanfod arbedion neu adnoddau i'w ail fuddsoddi.

## 5 CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Os fydd y cynllun yn cael ei gymeradwyo, bydd y broses recriwtio ar gyfer y swydd Arweinydd Therapi yn dechrau yn syth. Mae trafodaethau eisoes yn cael wedi eu cynnal gyda Phrifysgol Glyndwr a'r Bwrdd Iechyd ynghylch cefnogi y cwrs gradd rhan amser ar gyfer denu a datblygu staff yn y dyfodol.

Hyderir y bydd yr adolygiad o drefniadau therapi galwedigaethol a'r gwaith o newid diwylliant a gwreiddio a prif ffrydio ffyrdd newydd o weithio yn cael eu cyflawni o fewn y ddwy flynedd.

Fel sydd wedi ei nodi eisoes, bydd caniatáu'r gyllideb ar gyfer y cynllun yn cryfhau ein gallu i gefnogi a gwireddu nifer o gynlluniau sydd a'r nod o alluogi pobl Gwynedd i wneud yr hyn sydd yn bwysig iddynt.

## 6 UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

**Pennaeth Cyllid:**

Nodaf fod cais yma am £116,000 o adnoddau un tro o'r Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor. Bydd nifer o geisiadau haeddiannol yn deillio o Gynllun y Cyngor yn cystadlu am adnoddau prin o'r Gronfa Trawsffurfio. Mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethu'r ceisiadau sy'n gwneud gwahaniaeth wrth ddyrannu adnoddau o'r Gronfa. Cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i ariannu'r cynlluniau

sydd wedi'u cyflwyno i'r Cabinet, a bod arian pellach ar gael o'r Gronfa ar gyfer rhai prosiectau fydd yn cyrraedd cyfarfodydd dilynol o'r Cabinet am gymeradwyaeth.

**Swyddog Monitro:**

Dim sylwadau i'w hychwanegu ynglŷn a phriodoldeb.

# CABINET CYNGOR GWYNEDD

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | **4 Mehefin 2019** |
| **Aelod Cabinet:** | **Y Cynghorydd Dafydd Meurig** |
| **Swyddog Cyswllt:** | **Aled Davies** |
| **Rhif Ffôn Cyswllt:** | **01286 679003** |
| **Teitl yr Eitem:** | **Cais am adnoddau un tro o'r Gronfa Trawsffurfio i ariannu y Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia yn y gymuned (sy'n cynnwys Dementia Go) am gyfnod o flwyddyn.** |

## 1. Y PENDERFYNIAD A GEISIR

Prif bwrpas y Cynllun yma yw cefnogi gweithrediad blaenoriaeth gwella 6 yng Nghynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 - 'Sicrhau fod gennym wasanaeth gofal sy'n helpu pobl fyw eu bywydau fel y maent yn ddymuno".

Yn dilyn cyfnod peilot llwyddiannus o ddwy flynedd, gofynnir i ddyrannu £97,660 o'r Gronfa Trawsffurfio i ariannu Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia yn y Gymuned (sy'n cynnwys Dementia Go), i ariannu 2 swydd llawn amser (ym Mhwllheli a Porthmadog) a dwy swydd 7awr yr wythnos wedi eu lleoli yn Nhywyn a Chaernarfon hyd at 31 Mawrth, 2020. Mae costau offer a hyfforddiant yn gynwysedig yn y swm a geisir uchod.

## 2. Y RHESWM DROS YR ANGEN AM BENDERFYNIAD

Mae ffrwd ariannu presennol y Cynllun uchod drwy'r Gronfa Gofal Integredig wedi dod i ben ar 31 Mawrth 2019. Mae Cynllun Cyngor Gwynedd 2018-23 a fabwysiadwyd ar yr 8fed o Fawrth eleni yn nodi bwriad yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant i gydweithio gyda chymunedau Gwynedd i hyrwyddo cymunedau cyfeillgar i ddementia ac i hyrwyddo gwydnwch cymunedol fydd yn adeiladu ar gryfderau'r cymunedau hynny i atal y galw am wasanaethau gofal a chymorth.

Mae'r elfen Dementia Go, sydd yn rhaglen wreiddiol a ddatblygwyd yng Ngwynedd, wedi cael cydnabyddiaeth genedlaethol am ei flaengarwch a'r cyfraniad mae'n ei wneud i fywydau pobol a'u gofalwyr sy'n byw gyda dementia. Mae'n cael ei gyfeirio ato fel ymarfer da mewn cyhoeddiadau a thrwy gyflwyniadau mewn cynadleddau gan y Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru. Mae Cyngor Ceredigion ac awdurdodau eraill wedi mynegi diddordeb mewn efelychu'r Cynllun yn eu Cyngor hwy yn dilyn gwahoddiad i roi cyflwyniad o flaen rhanddeiliaid yn y maes dementia yn y Sir.

Trwy werthuso y prosiect hwn yn chwarterol a chyflwyno adroddiadau i'r Gronfa Gofal Integredig, mae tystiolaeth gryf yn dangos fod y Cynllun yn fodd i'r Adran wireddu ei phrif egwyddorion i:

- Sicrhau llesiant y rhai sydd angen gofal a chymorth
- Geisio atal anghenion unigolion rhag cynyddu, ac yn
- ymdrechu i sicrhau bod y cymorth iawn ar gael ar yr adeg iawn.

Gellir darlunio llwyddiant y rhaglen drwy storiâu personol yr unigolion sy'n rhan o'r grwpiau.

Wedi llwyddiant y rhaglen ddechreuol, mae nawr angen penderfynu os ydi'r Cyngor am neilltuo adnoddau i barhau â'r gwaith arloesol yma sy'n fodd o rymuso pobl sy'n byw gyda dementia, a'u gofalwyr, trwy sicrhau gwasanaeth ataliol penodol iddynt o fewn Canolfannau yn y gymuned.

Tra bod y dystiolaeth o fudd y rhaglen i gefnogi llesiant unigolion, teuluoedd a gofalwyr yn bur gadarn ac yn dangos gwerth y gwaith fel dull ataliol, mae gwaith pellach i'w wneud o ran mantoli yr arbedion ariannol. Nid yw hyn yn dasg syml gan fod pob achos yn wahanol a'r cyfanswm o wariant y gellir ei osgoi neu ohirio trwy gefnogaeth ataliol yn amrywio yn sylweddol. Mae'r gwaith yma eisoes ar y gweill a gobeithio y gellir amcangyfrif cyfraniad y rhaglen i reoli'r galw am ofal mwy dwys ymhen 6 mis.

Credir bod y Cynllun Gwasanaethau Dementia yn raglen sydd yn torri muriau ac yn sicrhau bod mynediad i bobl sy'n byw gyda dementia i wasanaeth llesiant. Mae'n canolbwyntio ar lesiant ac ar godi ansawdd bywyd trwy ymarfer corff a chadw'n gymdeithasol. Hefyd, mae'n fodd o roi cefnogaeth i ofalwyr a chael gofalwyr a theuluoedd pobol sy'n byw gyda dementia, i gefnogi ei gilydd.

**3. CYFLWYNIAD**

Mae'r gyllideb y gofynnir amdano uchod yn fodd o gyflawni y 5 maes rhaglen ganlynol:

- Byw'n dda gyda Dementia : Dosbarthiadau gweithgaredd corfforol cymunedol

- Prosiect "Munud i symud"(Moving moments) Cartrefi Gofal Cyngor Gwynedd

- Dymchwel muriau a thorri'r stigma o amgylch dementia

- Cefnogaeth a grymuso pobol, a'u teuluoedd, sy'n byw gyda dementia

- Ansawdd bywyd a chysylltu pobol.

## 4. RHESYMEG A CHYFIAWNHAD DROS ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

Mae buddsoddi mewn ymyraethau ataliol o fewn ein cymunedau yn sicrhau ein bod yn cwrdd â'n hymrwymiad i drawsnewid gwasanaethau gofal, o'r gwraidd. Mae'r prosiect hwn yn fodd o newid diwylliant cymdeithas, i ddeall y cyflwr dementia yn well a chael yr arfau i ymdopi gyda'r realiti bod nifer cynyddol o drigolion o fewn ein cymunedau yn mynd i fod yn byw gyda dementia. Yr ystadegau cenedlaethol yw y bydd 1 person o bob 14 dros 65 oed ag 1 person o bob 4 dros 80 oed, yn datblygu dementia. Mae hyn yn ymledu i effeithio ar deulu agos, cyfeillion o fewn cymuned a'r asiantaethau cyhoeddus sydd yn gwasanaethu trigolion Gwynedd. Mae'r **Cynllun Gwasanaethau Cefnogi Dementia yn y Gymuned** yn ffordd o gefnogi y newid hwn.

## 5. CAMAU NESAF AC AMSERLEN

Mae rhaglen gynhwysfawr wedi ei chynllunio ar gyfer 2019-20 sy'n adeiladu ar beth sydd wedi gweithio'n dda dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae'n cynnwys gwasanaethau newydd ac yn defnyddio technoleg i'w chyflawni.

Bydd y gwaith datblygol yma yn digwydd ochr yn ochr â'r gwaith i faintioli budd y cynllun o ran rheoli galw. Wedi i'r gwaith hwnnw gael ei gwblhau bwriedir ei ystyried ynghyd a'r budd llesiant. Os bydd y canlyniadau yn gadarnhaol, ac ar sail gwaith hyd yma disgwylir iddynt fod, bydd cais am Adnoddau parhaol yn cael ei gyflwyno trwy'r drefn bidio flynyddol arferol yn yr Hydref.

## 6. UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN ARGYMELL Y PENDERFYNIAD

### Barn y Swyddogion Statudol :

### Pennaeth Cyllid:

Nodaf fod cais yma am £97,660 o adnoddau un tro o'r Gronfa Trawsffurfio'r Cyngor. Bydd nifer o geisiadau haeddiannol yn deillio o Gynllun y Cyngor yn cystadlu am adnoddau prin o'r Gronfa Trawsffurfio. Mater i aelodau'r Cabinet fydd blaenoriaethu'r ceisiadau sy'n gwneud gwahaniaeth wrth ddyrannu adnoddau o'r Gronfa. Cadarnhaf fod darpariaeth ddigonol i ariannu'r cynlluniau sydd wedi'u cyflwyno i'r Cabinet, a bod arian pellach ar gael o'r Gronfa ar gyfer rhai prosiectau fydd yn cyrraedd cyfarfodydd dilynol o'r Cabinet am gymeradwyaeth.

### Swyddog Monitro:

Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb